Cymorth Cynllunio Cymru | Planning Aid Wales

Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2012 i Fawrth 2013

Cymorth Cynllunio Cymru
Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2012 i Mawrth 2013

Cynnwys	Tudalen
Rhagymadrodd	2
Gweithio gyda chymunedau	3
Gwybodaeth a chyngor	5
Gweithio gyda phartneriaid	6
Gwerthfawrogi ein Gwirfoddolwyr	7
Codi ein proffil	9
Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol 2012/13	10
Atodiad 2: Bwrdd Rheoli a'r tîm staff	11

Cymorth Cynllunio Cymru – Helpu cymunedau i ymgysylltu â chynllunio

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk
Cyngor ar ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Llinell Gymorth Cyngor: 02920 625 000
Ymholiadau cyffredinol: 02920 625 009

Elusen gofrestredig 1000115
Cwmni cyfyngedig drwy warant 2526875 (Cymru)

ISBN: 978-0-9567727-2-5

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rhagymadrodd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru 2012-13.

Mae'r adroddiad yn amlygu cyflawniadau amrwyio y gwasanaeth dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn arddangos lled a dyfnder y gwaith a wneir gan yr elusen. Wrth i'r system gynllunio barhau i ddatblygu mewn ymateb i newid gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol, mae'r angen am wasanaeth sy'n darparu gwybodaeth a chyngor cynllunio diduedd i'r rhannau hynny o gymdeithas sydd heb unrhyw ffynhonnell arall ar gael iddynt, yn parhau i fod yn hanfodol o bwysig. Mae helpu cymunedau i ymgysylltu'n effeithiol â chynllunio yn helpu creu cymdeithas decach ac hefyd yn galluogi'r system gynllunio i weithredu'n fwy effeithiol.

Peter Kingsbury

Cadeirydd Cymorth Cynllunio Cymru

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gydnabod y cyfraniad a wneir gan Gymorth Cynllunio Cymru ac am y gefnogaeth barhaus. Credaf y bydd y gwasanaeth yn gallu chwarae rôl bwysig yn helpu dosbarthu system gynllunio well, yn dilyn gweithredu Deddf Gynllunio newydd yng Nghymru yn 2015.

Hoffwn gydnabod y cyfraniad hanfodol a wneir gan ein gwirfoddolwyr wrth gynnal y gwasanaeth ac yn enwedig y Llinell Gymorth sy'n rhoi cyngor. Pobl yw'r rhain sy'n rhoi eu hamser sbâr yn fodlon er mwyn rhannu eu harbenigedd proffesiynol gyda rhai aelodau mwy difreintiedig ein cymdeithas a'n cymunedau. Yn ogystal, mae'n rhaid diolch i'm cyd-gyfarwyddwyr am eu cyfraniad yn llywio'r sefydliad mewn dyfroedd digon stormus o bryd i'w gilydd.

Rwyf yn falch iawn fod cyfraniad y cannoedd o wirfoddolwyr sydd wedi cefnogi Cymorth Cynllunio Cymru dros y blynyddoedd diweddar wedi ei gydnabod trwy eu gwobrwyo â statws Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn 2012.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r tîm staff am eu cefnogaeth i mi a'r cyfarwyddwyr eraill ac am eu hymroddiad yn sicrhau bod Cymorth Cynllunio Cymru yn darparu gwasanaeth o'r ansawdd orau i bob un o'i defnyddwyr.

Gweithio gyda chymunedau

Amcan Cymorth Cynllunio Cymru yw helpu cymunedau i ymgysylltu'n adeiladol â chynllunio.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i weithio gydag ystod o gymunedau sydd ddim yn ymwneud â chynllunio yn draddodiadol. Roedd rhain yn cynnwys grwpiau anabledd a mynediad, sipsiwn a theithwyr, grwpiau rhandiroedd cymunedol, yn ogystal â grwpiau cymunedol eraill mewn ardaloedd difreintiedig.

Rydym wedi datblygu strategaeth allgymorth gymunedol i esbonio pam fod angen cael gwaith allgymorth â thargedau mewn cynllunio, a'r egwyddorion allweddol fydd yn llywio'n dulliau. Mae cynllun gweithredu yn gosod allan meysydd gweithredu ar gyfer Cymorth Cynllunio Cymru er mwyn canolbwyntio eu hymdrechion dros y flwyddyn sydd i ddod.

Paratowyd fideo hyfforddi gydag arweinlyfr cefnogol i helpu grwpiau cymunedol i gymryd rhan yn archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol.

Cefnogi cynghorau cymuned a thref

Trwy weithio gydag Un Llais Cymru, prif grŵp cynghorau cymuned a thref, rydym yn dosbarthu rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr lleol sydd am ddysgu mwy am gynllunio. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi traddodi naw sesiwn o hyfforddiant, yn darparu gwybodaeth ar y ffordd orau i gymryd rhan wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a sut i ymateb yn effeithiol i geisiadau cynllunio. Mae'r ymateb i'r sesiynau hyfforddi wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, yn traddodi dau weithdy i'w haelodau Cymreig yn canolbwyntio ar y cyfleoedd sydd gan gynghorau lleol i ymgysylltu'n adeiladol â chynllunio, a'r llwybrau mwyaf effeithiol er mwyn i'r gymuned gymryd rhan.

Gweithio gyda grwpiau mynediad

Mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru dosbarthwyd cwrs hyfforddi i grwpiau mynediad oedd wedi ei anelu at adeiladu eu dealltwriaeth o gynllunio, gyda ffocws arbennig ar rôl Datganiadau Mynediad a Dylunio.

Hefyd, cynhyrchwyd fersiwn clywedol o'n cyhoeddiad canllaw '*Canllaw Datganiad Mynediad*' a gellir ei lawrlwytho o: www.planningaidwales.org.uk/how-paw-can-help/information/publications/access-statement-audio

Cefnogi Sipsiwn a Theithwyr

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi sefydlu rhwydwaith ledled Cymru o bobl sy'n ymwneud â materion yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r aelodau'n cynnwys cynllunwyr, gweithwyr datblygu cymunedol ac eraill o gefndiroedd amrywiol sydd eisoes yn helpu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr mewn gwahanol rannau o Gymru.

Mae'r rhwydwaith yn galluogi'r aelodau i rannu gwybodaeth ac i gefnogi gwirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru pan fônt yn gweithio ar faterion Sipsiwn a Theithwyr.

Hefyd mae ein gwirfoddolwyr wedi helpu sicrhau caniatâd cynllunio i ddau deulu o Sipsiwn a Theithwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gerddi cymunedol a rhandiroedd

Rydym weid bod yn gweithio gyda Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol i ddarparu gwybodaeth ar gynllunio sy'n ymwneud â defnydd tir ar gyfer grwpiau sy'n ymwnued â phrosiectau gerddi cymunedol neu randiroedd.

Cynhyrchwyd taflen ffeithiau, *'Rhandiroedd, tyfu yn y gymuned a'r system gynllunio'*, er mwyn rhoi canllawiau ar gynllunio i bobl sy'n ystyried sefydlu prosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru.

Gwybodaeth a chyngor



ffigwr 1



ffigwr 2

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyngor o ansawdd uchel ar Linell Gymorth gyda chefnogaeth gan ein rhwydwaith o wirfoddolwyr proffesiynol cymwys.

Rhwng Mawrth 2012 a Chwefror 2013 derbyniwyd 288 galwad yn gofyn am wybodaeth a chyngor ar amrywiaeth eang o faterion cynllunio (gweler ffigwr 1 uchod).Hefyd cynorthwywyd 13 grŵp cymunedol oedd â chyfanswm o 422 o aelodau.

Mae meini prawf cymhwyster yn helpu i sicrhau bod ein hadnoddau cyfyngedig yn cael eu hanelu at y bobl hynny â'r angen mwyaf. Nid ydym yn gallu helpu pobl sydd yn debygol o elwa yn ariannol o benderfyniad cynllunio – cyfeirir y galwyr hyn at restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig.

Ffigwr 2 uchodyn arddangos cymhwyster ein cleientiaid dros y flwyddyn ddiwethaf (cleientiaid Lefel 3 yw'r rhai mwyaf cymwys).

Rhai esiamplau o waith achos

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi:

- esbonio'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol i Mrs F, yn cynnwys yr opsiwn o gyflwyno sylwadau yn gwrthwynebu safle amgen;
- cynghori Mr J. ar y broses apêl mewn cynllunio, gan helpu ei ymdrechion i warchod adeilad hanesyddol;
- cynghori grŵp cymunedol, oedd yn gwrthwynebu mast telegyfathrebu, ynghylch yr ystyriaethau cynllunio perthnasol;
- cynghori Mr C. ar sut i geisio cael caniatâd cynllunio wedi iddo dderbyn hysbysiad gorfodaeth;
- rhoi gwybod i berchennog busnes bach efallai bod ganddo hawl i apelio yn erbyn cais cynllunio nad oedd wedi ei benderfynu arno.

Adborth

Dyma'r hyn a ddywedodd rhai o'r bobl rydym wedi eu helpu am ein gwasanaeth:

"Rwyf wedi defnyddio Cymorth Cynllunio Cymru ers blynyddoedd bellach ac yn falch iawn ei fod yn bodoli."

"Daeth â llonyddwch meddwl i sefyllfa'n llawn straen a llwyddwyd i ddefnyddio dull yn seiliedig ar wybodaeth i ddelio â swyddogion cynllunio fy nghyngor lleol."

"Roedd y cyngor o gymorth mawr. Ces fy arwain i'r cyfeiriad cywir yn bendant!"

"Yr empathi a'r mewnwelediad – yn amlwg wedi ei ennill yn dilyn profiad a dyngarwch."

"Yn hawdd mynd atyn nhw ac yn ddiffwdan. Daethant yn ôl ataf gyda gwybodaeth atodol."

Gweithio gyda phartneriaid

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gweithio gydag ystod o sefydliadau partner dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhydd y canlynol flas ar hyn:

Llywodraeth Cymru

- Ymateb i gynllunio ar gyfer ymgynghoriadau fframwaith adfywio cenedlaethol a chynaliadwyedd (gweler: www.planningaidwales.org.uk/about-us/consultation-responses).
- Cynrychiolaeth ar Fforwm Cynllunio Cymru.
- Cyfrannu at ddimensiwn cynllunio i'r Prosiect Byw'n Annibynnol.
- Cynrychiolaeth ar grŵp 'bwrdd seinio' oedd yn ystyried adroddiad drafft Ymarfer Coethi Proses CDLl (Cynllun Datblygu Lleol).

Un Llais Cymru / Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol

- Dosbarthwyd rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi meithrin gallu ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref.
- Cyflwyno yng nghynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol.

RTPI Cymru

- Rhoi cyflwyniad yng Nghynhadledd Cynllunio Cymru.
- Cymryd rhan mewn dadl panel ar ddiwygio cynllunio.
- Cyfrannu at y cylchgrawn '*Cynllunio*'.

Cymdeithas Cynllunio Tref a Gwlad

- Rhoi cyflwyniad mewn digwyddiad trafodaeth 'bwrdd crwn' ar ddiwygio cynllunio.

Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol

- Cynhyrchwyd taflen ffeithiau ar gyngor cynllunio ar gyfer tyfwyr cymunedol yng Nghymru.

Anabledd Cymru

- Dosbarthwyd modiwlau hyfforddi cynllunio 'Y Ffordd Ymlaen'.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

- Llwyddo i gael achrediad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Cyngor Sirol Sir Y Fflint

- Datblygwyd opsiynau ar gyfer ymgysylltiad y gymuned wrth baratoi CDLl.

Cyngor Sirol Sir Gaerfyrddin

- Datblygwyd prosiect i adeiladu perthynas waith agosach rhwng y grŵp mynediad lleol a'r tîm cynllunio.

Prifysgol Caerdydd

- Datblygwyd opsiynau ar gyfer sefydlu hanfod menter gymdeithasol ar y cyd.

Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar

- Cydnabyddiaeth yn y cyhoeddiad *'Planning Naturally' ('Cynllunio'n Naturiol')* am ein gwaith mentrus gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn eu cynorthwyo i ymgysylltu cymunedau lleol â pharatoadau'r Cynllun Datblygu Lleol.

Gwerthfawrogi ein Gwirfoddolwyr

Recriwtio gwirfoddolwyr

Rydym wedi croesawu deuddeg gwirfoddolwr newydd dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd yn golygu bod gennym rwydwaith o 86 o wirfoddolwyr ymroddgar. Diolch yn fawr a phob lwc i'r gwirfoddolwyr sy'n ein gadael - Allan Archer, Katherine Salter, Matthew David Johnson, Sean Cunniffe, Stuart Willis, Brian Davies, Kathleen Norton, Hannah Machin, John Rhys Davies, Clare Pugh, Rhys Lloyd Jones, Nicola Caie, Iona Eirian Thomas, Owain Williams a Christopher McCarty.

Rydym yn dibynnu ar wirfoddolwyr cynllunio profiadol i gefnogi ein gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant. Rydym hefyd yn croesawu gwirfoddolwyr cymunedol i gynorthwyo gyda gweithgareddau eraill megis prosiectau allgymorth, mynychu digwyddiadau a marchnata. Yn ystod y flwyddyn cymerodd mwy o wirfoddolwyr ran mewn ystod ehangach o weithgareddau nag erioed o'r blaen.

Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn rhoi eich sgiliau mewn cynllunio neu ymgysylltiad cymunedol i ddefnydd da yna ewch i www.planningaidwales.org.uk/volunteering

Profiadau'r gwirfoddolwyr

Dyma'r hyn sydd gan ein gwirfoddolwyr i'w ddweud am eu profiadau:

"Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr i mi i'r system gynllunio yng Nghymru. Gwnes ymchwil a chynorthwyais ddatblygu ystod o gyhoeddiadau canllaw. Baswn yn argymell gwirfoddoli gyda Chymorth Cynllunio Cymru i unrhywun sydd newydd raddio a sydd â diddordeb mewn cael profiad yn y system gynllunio."

(Christopher McCarty, gwirfoddolwr swyddfa)

"Rwy'n rhoi cyngor ar y ffôn ran fwyaf i bobl sydd fel arfer rhyw bellter i ffwrdd. Rwy'n ceisio cyfuno cyngor cynllunio plaen gyda syniadau eraill, ond ambell waith mae'r rôl yn fwy therapiwtig – mae delio gyda theimladau pobl yn rhan bwysig o'r rôl. Rwy'n credu y dylai cynllunwyr fod yn hynod falch o Gymorth Cynllunio Cymru."

(Jon Talbot, gwirfoddolwr cynllunio)

Gweithgaredd y gwirfoddolwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein gwirfoddolwyr gyda'i gilydd wedi cyfrannu bron i saith gant o oriau o'u hamser i helpu i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â chynllunio. O'r cyfanswm hwn, treuliwyd 142 awr yn cynorthwyo galwyr i'r Linell Gymorth a 532 awr arall mewn ystod eang o weithgareddau eraill megis paratoi dogfennau canllaw, dosbarthu hyfforddiant ac yn gwirfoddoli yn y swyddfa.

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Ym mis Hydref 2012 dyfarnwyd statws Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, y marc siarter am ymarfer da mewn rheolaeth gwirfoddoli, i Gymorth Cynllunio Cymru. Datganodd yr adroddiad:

"Mae gan Gymorth Cynllunio Cymru rolau a gofynion gwirfoddoli clir iawn a theimla'r gwirfoddolwyr fod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod. Cymeradwyodd y gwirfoddolwyr a gyfwelwyd, yr hyfforddiant a'i ansawdd, gan ei ystyried yn elfen hanfodol o'u profiad yn gwirfoddoli, yn helpu i wella eu gwybodaeth a'u cymwysterau. Mae polisïau eglur yn eu lle, adnoddau o gymorth yn y llyfrgell, hyfforddiant a chefnogaeth ar gael o fewn y sefydliad i gynorthwyo'r gwirfoddolwyr."

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar gynllun datblygu gwirfoddolwyr i wella profiadau ein gwirfoddolwyr hyd yn oed yn fwy.

Rheolaeth gwirfoddoli

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniad a wneir gan ein gwirfoddolwyr ac rydym bob amser am wella eu profiad o wirfoddoli. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi:

- cyflawni statws Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.
- datblygu rhaglen o weithgareddau i annog gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau.
- gwella ein holiadur blynyddol i wirfoddolwyr.
- cyfeirio 47% o holl achosion y Llinell Gymorth i wirfoddolwyr.
- dosbarthu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi i wirfoddolwyr.
- cyhoeddi cylchlythyr rheolaidd i'r gwirfoddolwyr.
- cyflwyno cynllun gwobrwyo gwirfoddolwyr.

Codi ein proffil

Marchnata a hyrwyddo

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi codi ein proffil ymysg nifer o grwpiau a sefydlaidau yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, Llywodraeth Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cychwyn ar raglen o waith i adeiladu cysylltiadau cryfach gydag awdurdodau cynllunio lleol. Paratowyd strategaeth farchnata i ganolbwyntio ar ein hymdrechion marchnata dros y flwyddyn i ddod.

Rydym wedi parhau i gynhyrchu Cylchlythyr Cymunedol yn chwarterol, gan ddarparu newyddion a gwybodaeth ar allgymorth a gwaith prosiect, hyfforddiant i gynghorau cymuned a grwpiau lleol eraill, yn ogystal ag astudiaethau achos sy'n disgrifio'r ystod o waith rydym yn ei wneud. Dosberthir y cylchlythyr i ystod eang o unigolion a grwpiau ar draws Cymru. Gellir cael gafael ar gopïau presennol a gorffennol yn: www.planningaidwales.org.uk/about-us/newsletters

Datblygu'r wefan

Mae gwefan Cymorth Cynllunio Cymru wedi ei ddiweddaru i gynnwys adran 'amdanom ni' sy'n fwy greddfol, ystod ehangach o gyhoeddiadau canllaw ar gynllunio mewn fformadau gwahanol a thudalennau mwy greddfol ar awdurdodau lleol sy'n darparu manylion cyswllt a'r wybodaeth ddiweddaraf ar hynt Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mynychu a threfnu digwyddiadau

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi darparu stondinau arddangos ac wedi cynnal gweithdai mewn nifer o ddigwyddiadau allweddol a chynadleddau yn cynnwys: Cynhadledd Cynllunio Cymru; cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru; cynhadledd flynyddol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a diwrnod hyfforddiant blynyddol Cyngor Sirol Sir Gaerfyrddin ar gyfer Cynghorau Cymunedol.

Atodiad 1: Gwybodaeth ariannol 2012/13

Datganiad o weithgareddau ariannol, y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31ain 2013

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2013 £	Cyfanswm 2012 £
Adnoddau'n dod i mewn				
Gweithgareddau er hyrwyddo amcanion yr elusen				
Grantiau a dderbyniwyd	135,000	-	135,000	135,000
Rhoddion	105	-	105	76
Digwyddiadau codi arian	50	-	50	267
Llog banc a dderbyniwyd	66	-	66	104
Incwm arall	17	-	17	1,270
Ffioedd yn dderbyniadwy	3,987	-	3,987	11,538
Cyfanswm adnoddau'n dod i mewn	**139,225**	**-**	**139,255**	**148,225**
Adnoddau a wariwyd				
Gwariant elusennol uniongyrchol	145,790	-	145,790	145,337
Rheolaeth a gweinyddiaeth	2,246	-	2,246	2,170
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	**148,036**	**-**	**148,036**	**147,547**
Adnoddau net yn dod i mewn ar gyfer y cyfnod	**(8,811)**	**-**	**(8,811)**	**708**
Cronfeydd a gariwyd ymlaen	44,659	15,857	60,516	59,808
Cronfeydd i'w cario ymlaen	**35,848**	**15,857**	**51,705**	**60,516**

Cymorth cynllunio cymru mantolen ar 31 Mawrth 2013

	2013 £	2012 £
Asedau sefydlog		
Asedau diriaethol	1,860	1,518
Asedau cyfredol		
Stociau	300	300
Dyledwyr	1,920	1,901
Arian parod yn y banc	50,205	59,509
	52,425	61,710
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(2,580)	(2,712)
Asedion cyfredol net	49,845	58,998
Cyfanswm yr asedion namyn y dyledion cyfredol	**51,705**	**60,516**
	=====	=====
Cronfeydd		
Anghyfyngedig	35,848	44,659
Cyfyngedig	15,857	15,857
Cronfeydd yr aelodau	**51,705**	**60,516**
	=====	=====

Cymerwyd y ffigyrau uchod o gyfrifon drafft 2012/13, sydd i'w harchwilio. Mae'r cyfrifon llawn ar gael ond i chi ofyn.

Mae Bwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru yn arolygu rheolaeth ariannol y sefydliad gyda'r bwriad o gefnogi a chynyddu Cymorth Cynllunio Cymru ar sail gadarn ariannol. Mae gan y Bwrdd bolisi arian-wrth-gefn sydd wedi ei gynllunio i gynnal lefel gall o arian-wrth-gefn i barhau i weithredu, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r tablau yn cyfeirio at gronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae hyn yn gwahaniaethu rhwng cronfeydd a ellir eu gwario ar eitemau penodol yn unig sydd â chysylltiad ag ariannu prosiect fel arfer, a'r rhai lle nad oes unrhyw gyfyngiad ar eu defnydd.

Atodiad 2: Bwrdd Rheoli a'r staff

Bwrdd Rheoli

Peter Kingsbury, Cadeirydd

Gayle Wootton, Is-Gadeirydd

Owain Wyn, Trysorydd

Lucie Taylor, Cadeirydd Pwyllgor Staffio ac Archwilio

Allan Archer

Lawrence Dowdall (o fis Ebrill 2012)

James Griffiths (tan fis Gorffennaf 2012)

Ian Horsburgh

Katherine Hughes (tan fis Gorffennaf 2012)

Christopher Kimpton (o fis Ebrill 2012)

Emma Langmaid (enwebedig RTPI Cymru, o fis Awst 2012)

John Mattocks

Kathleen Norton (tan fis Gorffennaf 2012)

Francesca Sartorio (o fis Ebrill 2012)

Jane Shatford

Alison Thomas (enwebedig RTPI Cymru, tan fis Gorffennaf 2012)

Y tîm staff

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr

James Davies, Cynllunydd a Rheolwr Achos

Sioned Pearce, Swyddog Datblygu ac Hyfforddiant (tan fis Tachwedd 2012)

Owain Williams, Swyddog Datblygu ac Hyfforddiant (o fis Ionawr 2013)

Angharad Hobbs, Cynorthwy-ydd Cynllunio

Kay Sharman, Swyddog Cyllid a Gweinyddiaeth